| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 5 Mehefin 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Cyd Uned Gaffael |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar y Cyd Uned Gaffael ym mis Mai 2018. Rhoddodd y Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael y wybodaeth ddiweddaraf ar y gwasanaeth ym mis Ionawr 2019.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau i'r Cyd Uned Gaffael ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel', felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw. Dyma'r adroddiad dilynol cyntaf a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu archwilio ac yn penderfynu a oes angen adroddiadau diweddaru pellach ar gynnydd gyda'r cynllun gweithredu gwella.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae adroddiad dilynol Archwilio Mewnol (Atodiad 1) yn dangos bod y mwyafrif o'r camau gweithredu wedi cael eu cwblhau yn llwyddiannus gyda thri mater risg canolig yn weddill, sy'n gwneud cynnydd. Mae'r camau gweithredu hyn wedi mynd tu hwnt i'r dyddiad cwblhau cytunedig, yn bennaf oherwydd y gofyniad i weithredu'r camau hyn mewn dau Gyngor, a'r angen i deilwra'r datrysiad i weddu. Yn benodol, datblygu strategaethau a pholisïau ar gyfer y ddau Gyngor, sydd angen cymryd i ystyriaeth barn y ddau Awdurdod. Er bod y broses yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, mae'r gwaith wedi dechrau i ddarparu'r gwelliannau gofynnol.

Yn seiliedig ar gwmpas yr adolygiad gwreiddiol a'r gwelliannau a wnaed, rydym wedi cynyddu'r sgôr sicrwydd o isel i ganolig. Byddwn yn parhau i fonitro'r camau gweithredu sy'n weddill fel rhan o'n proses dilyn trywydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.